

Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP).

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Ngholeg Sir Benfro ar 06/02/2024

Aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid oedd yn bresennol yn y cyfarfod: Sara Davies. Michele Chung. Ball Callum. Seb Landais. Sarah Webberley.

Hwyluswyr: Maisie Sherratt a Graham Peake

Ymwelwyr: Digartref Sir Benfro (Amanda a William)

Materion a drafodwyd

Eitem ar yr Agenda	Trafodaeth	Camau Gweithredu
1.	Dal i fyny / Mewn-gofnodi	
2.	Bannau Brycheiniog – cwrs preswyl	Rhannodd Maisie fanylion y cwrs preswyl mewn taflen. Maisie a Graham i fynd ar drywydd cwestiynau/ ymholiadau blaenorol gyda Hayley. Maisie a Graham i drafod gweithgaredd arall (ogofa) gyda Hayley.
3.	Maniffesto Ieuenctid – Digartref Sir Benfro <ul style="list-style-type: none">- William ac Amanda o Digartref Sir Benfro. Siaradwyr gwadd y dyfodol <ul style="list-style-type: none">- Michel Regelous - Swyddog Cynllun Rheoli a Morol a Pholisi Strategol- Lewis George – Pride Sir Benfro- MIND	Maisie i deipio nodiadau a'u rhannu gyda'r Pwyllgor Ieuenctid. Maisie a Graham i drafod syniadau codi arian ar gyfer y Digartref Sir Benfro. Maisie i gadarnhau dyddiad gyda Michel R ar gyfer cyfarfod â'r Pwyllgor. Maisie i gysylltu â Lewis (Pride) a MIND am ddyddiadau (ar-lein / yn bersonol).
4.	PARCMYN IEUENCTID Hanner tymor 13.02.24 Crempogau a Llwybrau	Maisie i ddsbarthu manylion ynghylch gweithgaredd a lleoliad. Maisie i drafod defnyddio'r safle gyda pherchennog tir Perllan Penfro (Rhian Cowen).
5.	Unrhyw Fater Arall / All-gofnodi	

DIGARTREF SIR BENFRO

William – Gwirfoddolwr

Amanda – Cadeirydd / sylfaenydd

- Cartrefi yw lleoedd lle'r ydym yn byw / yn gweithio.
- Ein byd yw lle i ni ofalu amdano.
- Mae Amanda a William yn gwerthfawrogi ac yn cytuno â'r maniffesto leuenctid.
- Mae rhyw 122 miliwn o bobl yn ddigartref ledled y byd.
 - 350 000 yn y DU
 - 600 o achosion yn Sir Benfro – 1000 o unigolion
- Dechrau Digartref Sir Benfro
 - Dechreuodd Amanda wau hetiau i unigolion digartref yn 2017 a daeth y gymuned at ei gilydd i gynorthwyo. Anfonwyd y rhain ar hyd a lled Cymru, a thu hwnt!
 - 2018 – Dechreuodd Amanda greu pecynnau brys i'r rhai sy'n cysgu allan (gall y rhain gostio £200 yr un i'w creu).
 - COVID - Cymorth bwyd gan nad oedd gan bobl ddigartref, agored i niwed, gyfleusterau cludiant.
 - 2020 – daeth yn elusen gofrestrdig.
 - Daeth Amanda yn ddigartref ei hun ar ôl gadael priodas lle cafodd ei cham-drin.
 - Ar ôl COVID – daeth galw unwaith yn rhagor am y pecynnau brys ar gyfer pobl sy'n cysgu allan.
- Mae Digartref Sir Benfro ar gael 365 diwrnod y flwyddyn 24/7 – dim ond Amanda a William sydd wrth y llyw ar hyn o bryd.
- Ariennir yn gyfan gwbl gan roddion y gymuned a digwyddiadau codi arian.
- Amcangyfrif – mae o leiaf 50% o unigolion digartref cofrestrdig yn 'bobl ifanc' dan 30 oed.
 - Yn gaeth i gyffuriau.
 - Yn gaeth i alcohol.
 - Anghydfod teuluol.
 - Pwysau costau byw.
 - Iechyd/salwch meddwl.
 - Eu troi allan o'u cartref.
 - Wedi'u gwthio allan.
- Mae gan CSP ddyletswydd i helpu/yn gyfrifol am bobl sydd â 'chysylltiadau lleol'.
- Dinas a chefn gwlad
 - Mwy o leoedd i gael cymorth mewn dinasoedd.
 - Digartrefedd yn fwy amlwg – mae pobl yn tybio nad oes digartrefedd yn Sir Benfro.
 - Mae unigolion digartref yn aml â chywilydd am eu sefyllfa ac yn well ganddynt fod yng nghanol unman.
- Llauer o gymorth positif gan yr Heddlu yn y sir.
- Yn rhoi cymorth ar 'sgiliau bywyd'.
 - Rheoli arian.
 - Talu biliau.
 - Gwersi technoleg gwybodaeth.
 - Rhifedd a llythrennedd.
 - Chwalu rhwystrau – addysg.
- Goblygiadau iechyd hirdymor o fyw 'y tu allan'.
- Rhoddion / cyllid cymunedol.
 - Gofod swyddfa am 6 mlynedd
 - Bagiau a chit cysgu

- Rhestr dymuniadau Amazon
- Dillad dal dŵr a dillad awyr agored
- Dognau'r fyddin
- Pecynnau brys
- Mawrth 2022 – Presennol = 71 o becynnau brys llawn wedi'u dosbarthu ynghyd ag eitemau unigol.
 - Mwy a mwy o alw am becynnau cam-drin domestig.
 - Larwm
 - Cymorth Cyntaf
 - Ffôn Symudol
 - Dillad glân
- Sut allwn ni helpu fel Cenhedlaeth Nesaf PCAP?
 - Codi arian
 - Codi ymwybyddiaeth
 - Ychwanegu rhywbeth i'r maniffesto ieuenctid
 - Annog eraill i estyn allan a bod yn ymwybodol – Rebecca Evans (hyfforddiant i wirfoddolwyr ar sut i ymdrin yn briodol â digartrefedd o fewn PCAP).